Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2016 Rhif 611 (Cy. 168)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu 2010 ("y Rheoliadau Adeiladu") a Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ("y Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy").

Mae rheoliad 2 yn diwygio'r Rheoliadau Adeiladu.

Mae rheoliad 2(2), (3), (4), (5)(b) ac (c), (6), (13)(e), (14)(e), (15)(e), (16) i (18), (19)(a)(i) ac (a)(ii), y diffiniad cyntaf, (19)(b), (20) ac (21), yn dirymu gofynion sy'n ymwneud â darparu tystysgrifau perfformiad ynni ar gyfer adeiladau newydd ac adeiladau penodol a addaswyd. Mae'r gofynion hynny wedi eu cydgrynhoi mewn diwygiadau a wnaed i Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012 gan Reoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2016.

Mae rheoliad 2(5)(a), (7) i (12), (13)(a) i (d), (14)(a) i (d), (15)(a) i (d) a (19)(a)(ii), yr ail ddiffiniad, yn diwygio ac yn atodi gweithrediad Erthyglau 3 (mabwysiadu methodoleg ar gyfer cyfrifo perfformiad ynni adeiladau) a 4 (gosod gofynion perfformiad ynni gofynnol) o Gyfarwyddeb Senedd Ewrop a'r Cyngor 2010/31/EU ar berfformiad ynni adeiladau (ail-lunio) (OJ Rhif L 153, 18.6.2010, t. 13).

Mae rheoliad 2(7) a (19)(a)(ii), yr ail ddiffiniad, yn diwygio ac yn atodi diffiniadau mewn perthynas â pherfformiad ynni adeiladau. Mae rheoliad 2(5)(a) yn cywiro hepgoriad sy'n ymwneud ag ardystio cydymffurfiad â'r Rheoliadau Adeiladu.

Mae rheoliad 2(8) i (12), (13)(a) i (d), (14)(a) i (d) a 15(a) i (d) yn egluro bod rhaid defnyddio methodolegau a gymeradwyir yn unol â rheoliad 24 o'r Rheoliadau Adeiladu er mwyn canfod perfformiad

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

ynni adeiladau o dan y darpariaethau amrywiol yn y Rheoliadau Adeiladu.

Mae rheoliad 2(22) yn diweddaru'r rhestr yn Atodlen 3 i'r Rheoliadau Adeiladu o'r personau a awdurdodwyd i ddyroddi tystysgrifau cydymffurfio â gofynion y Rheoliadau hynny ar gyfer eu gwaith eu hunain.

Mae rheoliad 3 yn diwygio'r Rheoliadau Arolygwyr Cymeradwy. Mae'n gwneud darpariaeth o ganlyniad i'r dirymiad yn rheoliad 2 o ofynion sy'n ymwneud â darparu tystysgrifau perfformiad ynni ar gyfer adeiladau newydd ac adeiladau penodol a addaswyd a'u cydgrynhoi yn Rheoliadau Perfformiad Ynni Adeiladau (Cymru a Lloegr) 2012.

Nid oes asesiad effaith wedi ei lunio ar gyfer y Rheoliadau hyn, gan na ragwelir unrhyw effaith ar y sector cyhoeddus, y sector preifat na'r sector gwirfoddol, neu y rhagwelir ychydig iawn o effaith ar y sectorau hynny.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 611 (Cy. 168)

# ADEILADU AC ADEILADAU, CYMRU

## Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Mai 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *27 Mai 2016* |
| *Yn dod i rym* | *17 Mehefin 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â dylunio a chodi adeiladau, ac mewn perthynas â gwasanaethau, ffitiadau a chyfarpar a ddarperir yn yr adeiladau hynny neu mewn cysylltiad â hwy.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a chan adrannau 1, 34, 35 a 47 o Ddeddf Adeiladu 1984 a pharagraffau 1, 2, 4, 4A, 7 a 10 o Atodlen 1 iddi(**3**), sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**4**), ar ôl ymgynghori â Phwyllgor Cynghori Cymru ar Reoliadau Adeiladu a'r cyrff eraill

(**1**) O.S. 2016/161.

(**2**) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(**3**) 1984 p. 55. Diwygiwyd adran 1 gan adran 1 o Ddeddf Adeiladau Cynaliadwy a Diogel 2004 (p. 22) ("Deddf 2004"). Diwygiwyd adran 47(1) gan erthygl 3 o O.S. 1996/1905 ac adran 8 o Ddeddf 2004. Yn Atodlen 1, mewnosodwyd paragraff 4A gan adran 8 o Ddeddf 2004 a diwygiwyd paragraff 7 gan adran 3 o'r Ddeddf honno. Gwnaed diwygiadau eraill i baragraff 7 nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

(**4**) Cafodd y swyddogaethau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1, 34, 35 a 47(1) o Ddeddf Adeiladu 1984 a pharagraffau 1, 2, 4, 4A, 7 a 10 o Atodlen 1 iddi, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru gan Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019), yn ddarostyngedig i erthyglau 3 a 4 o'r Gorchymyn hwnnw.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

hynny yr ymddengys iddynt hwy sy'n cynrychioli'r buddiannau o dan sylw yn unol ag adran 14(7) o Ddeddf Adeiladu 1984(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Rheoliadau Adeiladu etc. (Diwygio) (Cymru) 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i "adeilad ynni a eithrir", ac mae i "adeilad ynni a eithrir" yr un ystyr ag a roddir i "excepted energy building" yn yr Atodlen i Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009(**2**).

(4) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 17 Mehefin 2016.

### Diwygiadau i Reoliadau Adeiladu 2010

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Adeiladu 2010(**3**) wedi eu diwygio yn unol â'r paragraffau a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) yn y diffiniad o "energy efficiency requirements" hepgorer "29 and"; a

(b) hepgorer y diffiniad o "energy performance certificate".

(3) Yn rheoliad 10(2) (esemptio Awdurdod yr Heddlu Metropolitanaidd rhag gofynion gweithdrefnol) hepgorer ", other than regulation 29,".

(4) Yn rheoliad 11(3) (pŵer i hepgor neu lacio gofynion) hepgorer ", 29 (with the exception of paragraphs 4(e), 9A, 10, 11 and 12), 29A".

(5) Yn rheoliad 17(2A) (tystysgrifau cwblhau)—

(a) yn lle is-baragraff (c) rhodder—

"(c) regulation 26A (primary energy consumption rates for new buildings),

(ca) regulation 26B (fabric performance values for new dwellings),";

(b) ar ddiwedd is-baragraff (e) hepgorer "and"; ac

(c) ar ddiwedd is-baragraff (f), yn lle "." rhodder—

",

(**1**) 1984 p. 55. Mewnosodwyd adran 14(7) gan erthygl 8(5) o Orchymyn Gweinidogion Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2009 (O.S. 2009/3019).

(**2**) O.S. 2009/3019.

(**3**) O.S. 2010/2214, yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2013/747 (Cy. 89), O.S. 2013/2621 (Cy. 258), O.S. 2014/110 (Cy. 10), O.S. 2015/1486 (Cy. 165) ac O.S. 2016/361 (Cy. 113). Gwnaed offerynnau diwygio eraill nad ydynt yn berthnasol i'r offeryn hwn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(g) regulation 7A (energy performance certificates on construction) of the Energy Performance of Buildings (England and Wales) Regulations 2012(**1**)”.

(6) Yn rheoliad 19(1) (goruchwylio gwaith adeiladu ac eithrio gan awdurdodau lleol) hepgorer “29 (energy performance certificates),”.

(7) Yn rheoliad 24(2) (methodoleg cyfrifo a mynegi perfformiad ynni)—

(a) yn y diffiniad o “asset rating” yn lle “a numerical indicator of” rhodder “an energy performance indicator determined from”; a

(b) yn lle’r diffiniad “operational rating” rhodder—

““operational rating” means an energy performance indicator determined from the amount of energy consumed during the occupation of a building over a period of time and the energy demand associated with a typical use of the building over that period.”

(8) Yn rheoliad 25 (gofynion perfformiad ynni gofynnol ar gyfer adeiladau newydd) yn lle “set” rhodder “calculated and expressed”.

(9) Yn rheoliad 25C (adeiladau newydd: gofynion perfformiad ynni gofynnol)—

(a) yn lle “may” rhodder “must”; a

(b) ar ôl “Welsh Ministers,” mewnosoder “calculated and expressed”.

(10) Yn rheoliad 26 (cyfraddau allyriadau CO2 ar gyfer adeiladau newydd) ar ôl “25” mewnosoder “, applying the methodology of calculation and expression of the energy performance of buildings approved pursuant to regulation 24”.

(11) Yn rheoliad 26A (cyfraddau defnyddio ynni crai ar gyfer adeiladau newydd) ar ôl “25C(a)” mewnosoder “, applying the methodology of calculation and expression of the energy performance of buildings approved pursuant to regulation 24”.

(12) Yn rheoliad 26B (gwerthoedd perfformiad adeiladwaith ar gyfer anheddau newydd) ar ôl “25C(b)” mewnosoder “, applying the methodology of calculation and expression of the energy performance of buildings approved pursuant to regulation 24”.

(13) Yn rheoliad 27 (cyfrifiadau cyfraddau allyriadau CO2)—

---

(**1**) O.S. 2012/3118, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/10; O.S. 2013/181; O.S. 2013/603; O.S. 2014/880; O.S. 2015/609; O.S. 2015/1681 ac O.S. 2016/284.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) ym mharagraff (2)(a) ar ôl "building" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

(b) ym mharagraff (2)(b) hepgorer "calculated", ac ar ôl "designed" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

(c) ym mharagraff (3)(a)(i) ar ôl "building" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

(d) ym mharagraff (3)(a)(ii) hepgorer "calculated", ac ar ôl "constructed" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24"; ac

(e) ym mharagraff (4) yn lle "such certificates" rhodder "energy performance certificates".

(14) Yn rheoliad 27A (cyfrifiadau cyfradd defnyddio ynni crai)—

(a) ym mharagraff (2)(a) ar ôl "building" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

(b) ym mharagraff (2)(b) hepgorer "calculated", ac ar ôl "designed" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

(c) ym mharagraff (3)(a)(i) ar ôl "building" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

(d) ym mharagraff (3)(a)(ii) hepgorer "calculated", ac ar ôl "constructed" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24"; ac

(e) ym mharagraff (4) yn lle "such certificates" rhodder "energy performance certificates".

(15) Yn rheoliad 27B (cyfrifiadau gwerthoedd perfformiad adeiladwaith)—

(a) ym mharagraff (2)(a) ar ôl "dwelling" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

(b) ym mharagraff (2)(b) hepgorer "calculated", ac ar ôl "designed" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(c) ym mharagraff (3)(a)(i) ar ôl "dwelling" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24";

(d) ym mharagraff (3)(a)(ii) hepgorer "calculated", ac ar ôl "constructed" mewnosoder ", calculated and expressed in accordance with the methodology approved pursuant to regulation 24"; ac

(e) ym mharagraff (4) yn lle "such certificates" rhodder "energy performance certificates".

(16) Hepgorer rheoliad 29 (tystysgrifau perfformiad ynni) ac Atodlen 4A (gwybodaeth am y Fargen Werdd).

(17) Hepgorer rheoliadau 29A i 33.

(18) Yn rheoliad 34(1) (cymhwyso rheoliadau adeiladu i adeiladau addysgol, adeiladau ymgymerwyr statudol ac Adeiladau'r Goron) hepgorer ", 29 (apart from regulations 29(4)(e), 29(9A), 29(10), 29(11) and 29(12)), 29A".

(19) Yn rheoliad 35 (dehongli Rhan 6)—

(a) ym mharagraff (1)—

(i) yn y diffiniad o "energy assessor" yn lle "regulation 30" rhodder "regulation 22 (accreditation schemes) of the Energy Performance of Buildings (England and Wales) Regulations 2012";

(ii) ar ôl y diffiniad hwnnw mewnosoder y diffiniadau a ganlyn—

""energy performance certificate" means a certificate which complies with the requirements of regulation 9 (energy performance certificates) or 9A (energy performance certificates in respect of excluded buildings) of the Energy Performance of Buildings (England and Wales) Regulations 2012;

"energy performance of a building" means the calculated or measured amount of energy needed to meet the energy demand associated with a typical use of the building, which includes, inter alia, energy used for heating, cooling, ventilation, hot water and lighting;"; a

(b) hepgorer paragraff (2).

(20) Yn rheoliad 47 (torri rheoliadau penodol yn peidio â bod yn drosedd) hepgorer "29,".

(21) Yn rheoliad 48(1) (cyflwyno dogfennau yn electronig) hepgorer is-baragraffau (i) a (j).

(22) Yn Atodlen 3 (cynlluniau hunanardystio ac esemptiadau i'r gofyniad i roi hysbysiad adeiladu neu

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

adneuo planiau llawn), yng ngholofn 2 o eitemau 8 a 10 hepgorer "BSI Assurance UK Limited,".

**Diwygiadau i Reoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010**

**3.—(1)** Mae Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r paragraffau a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 8(1)(b) (swyddogaethau arolygwyr cymeradwy)—

(a) hepgorer "29,"; a

(b) ar ôl "Principal Regulations" mewnosoder "and regulation 7A (energy performance certificates on construction) of the Energy Performance of Buildings (England and Wales) Regulations 2012"(**2**).

(3) Yn rheoliad 20 (cymhwyso rheoliadau 20, 25A, etc.)—

(a) yn y pennawd, hepgorer "29,";

(b) ym mharagraff (1)—

(i) hepgorer "29 (energy performance certificates) ,"; a

(ii) ar ôl "Principal Regulations" mewnosoder "and regulation 7A (energy performance certificates on construction) of the Energy Performance of Buildings (England and Wales) Regulations 2012";

(c) hepgorer paragraff (3); a

(d) ar ôl paragraff (6) ychwaneger—

"(7) Regulation 7A(3) of the Energy Performance of Buildings (England and Wales) Regulations 2012 applies in relation to building work which is the subject of an initial notice as if after "work has been completed" there were inserted ", or, if earlier, the date in which in accordance with regulation 17 of the Building (Approved Inspectors etc.) Regulations 2010 the initial notice ceases to be in force."

(4) Yn rheoliad 32 (cyflwyno dogfennau yn electronig)—

(a) hepgorer paragraffau (e) ac (f); a

(b) ar ôl paragraff (k) ychwaneger—

"(l) an energy performance certificate under regulation 7A(2)(a) of the Energy Performance of Buildings

(**1**) O.S. 2010/2215, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/747 (Cy. 89), O.S. 2013/2730 (Cy. 264), O.S. 2014/58 (Cy. 5) ac O.S. 2014/110 (Cy. 10).

(**2**) O.S. 2012/3118, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2013/10; O.S. 2013/181; O.S. 2013/603; O.S. 2014/880; O.S. 2015/609; O.S. 2015/1681; ac O.S. 2016/284.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(England and Wales) Regulations 2012 as applied by regulation 20;

(m) a notice under regulation 7A(2)(b) of the Energy Performance of Buildings (England and Wales) Regulations 2012 as applied by regulation 20.”

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amglylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
25 Mai 2016